Children and Young People Service

CONNECT

Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc

CYLCHLYTHYR

5
Mehefin
2023

Helo!

Gobeithio eich bod chi'n dda ac yn mwynhau'r tywydd hyfryd! Ydych chi wedi bod i'r traeth yn ystod hanner tymor? Gobeithio eich bod chi wedi cael hwyl ac wedi mwynhau beth bynnag wnaethoch chi.

Mae gwyliau'r haf yn dod ac rydym ni'n gwybod y gall rhai pobl ifanc ei chael hi'n anodd heb drefn arferol elly yn y cylchlythyr hwn, mae aelodau Connected wedi rhannu rhai o'r pethau maen nhw'n hoffi eu gwneud i gadw eu hunain yn brysur. Gobeithio eich bod chi'n hoffi eu syniadau.

Hefyd mae'r Gwasanaeth CONNECT wedi bod yn brysur yn gwneud llawer o bethau gwahanol i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu yn cael eu clywed. Ewch i weld yr hyn rydyn ni wedi bod yn ei wneud!



Dweud eich dweud

Ydych chi'n hoffi'r hyn rydych chi'n ei weld?

Eisiau clywed mathau eraill o newyddion? Pynciau gwahanol am fabwysiadu? Cysylltwch â ni wales@adoptionuk.org.uk

growing together

Connected

tyfu gyda'n gilydd


Dim ond hanner ffordd trwy 2023 ydyn ni ac eto mae grwpiau Connected wedi bod yn brysur gyda chymaint o wahanol weithgareddau fel coginio, hunanofal a sut i garu ni ein hunain yn fwy, archwilio natur a chwarae gemau.

Mae Connected hefyd wedi bod yn cwrdd â llawer o anifeiliaid gan gynnwys pryfetach! Edrychwch ar y lluniau isod!



Mae'r rhai rhwng 18-30 mlwydd oed wedi rhoi cynnig ar rywbeth newydd! Fe wnaethant ddysgu sut i hedfan a hongian ar eu pen i lawr!

Os ydych chi'n 18+ sganiwch yma i gofrestru ar gyfer y grŵp 18-30



Lleisiau a Llysgenhadon CONNECT

Ydych chi'n gwybod beth yw eich hawliau chi fel person wedi'i fabwysiadu? Oeddech chi'n gwybod bod siarter Mabwysiadu i chi?

Fe wnaeth aelodau Lleisiau CONNECT weithio gyda'i gilydd ar siarter yn nodi hawliau plant a phobl ifanc wedi'u mabwysiadu ledled Cymru. Cofiwch mai eich hawliau CHI yw'r rhain.

Gallwch ei weld drwy ymweld â www.connectcymru.com/adoption-charter/

Lleisiau CONNECT yw'r lle i fod os ydych chi am siarad am yr hyn sy'n bwysig i CHI fel un sydd wedi'i fabwysiadu, gallwch ddweud eich dweud a helpu eraill i ddeall eich anghenion.

I gael rhagor o wybodaeth am Lysgenhadon a Lleisiau CONNECT, a sut y gallwch chi gymryd rhan, e-bostiwch wales@adoptionuk.org.uk neu sganiwch y cod QR i lenwi'r ffurflen gais.

Gwybodaeth a Chanllawiau

Fe wnaeth Fran (Gweithiwr Ieuenctid Arweiniol, De Cymru) fynychu digwyddiad 'Balch o fod yn fi' Voices from Care ym mis Chwefror. Rydym ni'n teimlo ei bod yn bwysig i ni fod yn rhan o'r 'Rhwydwaith Pobl Ifanc â Phrofiad o Ofal' i sicrhau bod lleisiau pobl sydd wedi cael eu mabwysiadu yn cael eu cynnwys hefyd. Os yw hyn yn rhywbeth yr hoffech chi ddod iddo y flwyddyn nesaf, rhowch wybod i'ch gweithiwr ieuenctid.



Yn y digwyddiad hwn, yn ogystal â siarad am yr hyn mae CONNECT yn ei wneud. Roeddem yn archwilio pobl enwog rydym ni'n gwybod sydd â phrofiad o ofal. Mae'r llun ar y chwith yn cynnwys rhai o'r rhai y gwnaethom feddwl amdanyn nhw. Allwch chi feddwl am unrhyw rai eraill....



Ymwybyddiaeth ac Uwchsgilio

Mae llawer o bobl nad ydynt bob amser yn deall mabwysiadu. Mae CONNECT yn teimlo ei bod yn bwysig iawn deall y gwahaniaeth y gall mabwysiadu ei gynnig.

Mae Lleisiau CONNECT 18+ wedi gwneud fideos i'ch helpu gyda rhai o'r cwestiynau lletchwith y gallai pobl eu gofyn i chi.

Edrychwch ar y fideos yma www.connectcymru.com/awareness/awkward-questions/

Beth arall hoffech chi i ni fod yn siarad amdano?

Rhowch wybod i ni drwy e-bostio wales@adoptionuk.org.uk

Pethau i'w gwneud dros wyliau'r haf

Rydym ni wedi siarad â rhai aelodau Connected ac weithiau maen nhw'n poeni am beth i'w wneud dros wyliau'r haf. Dyma rai o'u syniadau am yr hyn y gallech chi ei wneud dros yr haf.

Canolbwyntio ar rywbeth

Darllen - faint o lyfrau allwch chi eu darllen?

Teledu - faint o sioeau newydd allwch chi eu dechrau a gorffen?





Anifeiliaid anwes - creu cwrs ymosod a cheisio ddysgu'ch anifail anwes!

Cerddoriaeth - Creu rhestr chwarae o'ch holl hoff ganeuon.





Teganau - Adeiladu'r peth mwyaf y gallwch chi allan o flociau adeiladu neu lego

Symud y corff!

Helfa sborion - faint o wahanol fathau o adar a blodau allwch chi ddod o hyd iddynt?

Cynnal disgo cartref. Chwarae hoff ganeuon dawns y teulu a dawnsio am ddeng munud.

Dod o hyd i bêl neu wneud pêl o'ch sanau ac yn eu taflu ar y wal. Neu dysgu sut i jyglo!





Mynd am dro - ydych chi'n hoffi cerdded yn y coed, ar y traeth neu o amgylch y siopau?

Adeiladu ffau - Naill ai yn y tŷ neu'r tu allan. Faint o wahanol bethau allwch chi eu defnyddio i'w wneud?



Siarad â...

Rhywun y gallwch chi ymddiried ynddo

Ffrindiau a theulu

Gweithiwr o'ch Gwasanaeth Mabwysiadu

Connected- Rhywle y gallwch chi fynd i gwrdd â phobl eraill wedi'u mabwysiadu



Eich meddyliau

Oes gennych chi rywbeth rydych chi'n hoffi ei wneud yn ystod gwyliau'r ysgol?

Beth am roi gwybod i ni sut rydych chi'n cadw'n brysur drwy ein tagio ar gyfryngau cymdeithasol